NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Sorafenib ar gyfer trin carsinoma hepatogellog datblygedig

31 Awst 2017

Mae Sorafenib (Nexavar) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer carsinoma hepatogellog datblygedig mewn oedolion os oes ganddynt nam gradd A Child-Pugh ar yr iau/afu.

Os nad ydych yn gymwys i gael sorafentib, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Ymddiriedolaeth Afu/Iau Prydain, 0800 652 7330
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040
- Liver4Life, 0800 074 3494
- Macmillan, 0808 808 0000
- Sefydliad Canser Pelican, 01256 314746

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-2660-2

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights